# Y Pwyllgor Menter a Dysgu
## Economi; Menter; Trafnidiaeth; Dysgu Gydol Oes

## Croeso i fwletin y Pwyllgor

Y Pwyllgor Menter a Dysgu yw un o Bwyllgorau Craffu **Cynulliad Cenedlaethol Cymru.** Ei brif swyddogaeth yw dwyn **Llywodraeth Cynulliad Cymru** i gyfrif drwy edrych ar wariant, gweinyddiaeth a pholisïau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill yn y meysydd a ganlyn:

- **Datblygu economaidd ac adfywio**
- **Menter gymdeithasol**
- **Trafnidiaeth**
- **Addysg, Dysgu gydol oes a Sgiliau**

Bwletin neu gylchlythyr yw hwn i unigolion a chyrff sydd am gael gwybodaeth am waith Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr hyn y mae wedi'i gyflawni a'r modd y mae'n gweithio. Gobeithio y bydd yn gwneud gwaith y Pwyllgor yn fwy hysbys ac yn ennyn diddordeb pobl yn y gwaith hwnnw drwy'ch helpu chi i roi gwybodaeth ac arbenigedd i'r swyddogion a'r Aelodau. Cafodd y bwletin ei lunio gan y tîm clercio sy'n cefnogi gwaith y Pwyllgor.

## Manylion cysylltu

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Siân Phipps** | Clerc | 02920 898582 | sian.phipps@wales.gsi.gov.uk |
| **Dan Collier** | Dirprwy Glerc | 02920 898020 | daniel.collier@wales.gsi.gov.uk |
| **Mike Lewis** | Cymorth Tîm | 02920 898018 | michael.lewis@wales.gsi.gov.uk |

Gallwch hefyd anfon e-bost at Dîm Clercio'r Pwyllgor drwy ddefnyddio'r linc: Pwyllgor menter a dysgu@Wales.gsi.gov.uk. Ein rhif ffacs yw: 02920 898021

Gwefan: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home.htm

## Y newyddion diweddaraf

**Seilwaith rheilffyrdd Cymru yn y dyfodol**

Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ar Seilwaith Rheilffyrdd Cymru yn y Dyfodol ar 25 Ionawr 2010, a gellir ei weld drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-report/bus-committees-third-el-report-el3-09-r11.htm

Trafodwyd yr adroddiad yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 17 Mawrth 2010. Mae trawsgrifiad o'r drafodaeth honno i'w weld drwy'r linc a ganlyn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-chamber/bus-chamber-third-assembly-rop.htm?act=dis&id=172941&ds=3/2010#3

Mae'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiad yn seiliedig ar ddyfodol tymor hir system rheilffyrdd Cymru. O'r 21 o argymhellion a wnaed, pump yn unig a gafodd eu derbyn gan y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth. Cytunwyd â saith arall mewn egwyddor, ond gwrthodwyd naw ohonynt. Bydd y Pwyllgor yn monitro'r cynnydd a wnaed o ran yr argymhellion ac yn cynnal sesiwn graffu arall gyda'r Gweinidog yn nhymor yr hydref.

**Y Strategaeth Gweithgynhyrchu**

Yn ystod y cyfarfod ar 2 Rhagfyr, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan CBI Cymru a NESTA (Y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau), a holodd y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth. Nod yr ymchwiliad oedd asesu'r sefyllfa bresennol ynghylch y strategaeth gweithgynhyrchu yng Nghymru, ynghyd â dylanwadu ar waith y Llywodraeth yn y maes hwn yn y dyfodol. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 5 Chwefror 2010, a gellir ei weld drwy ddilyn y linc a ganlyn:

http://www.cynulliadcymru.org/cr-ld7897

Cynhelir dadl ar yr adroddiad ac ymateb y Gweinidog iddo yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 28 Ebrill 2010.

**Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig y Pwyllgor ar Briffyrdd a Thrafnidiaeth**

Gosododd y Pwyllgor ei Orchymyn Arfaethedig (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Priffyrdd a Thrafnidiaeth) 2009 a'i Femorandwm Esboniadol ym mis Mehefin 2009. Byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn arwain at osod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i greu a chynnal rhwydwaith o lwybrau diogel, a hynny ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn bennaf. Cytunodd y Dirprwy Brif Weinidog, ym mis Tachwedd 2009, i gefnogi'r Gorchymyn Arfaethedig ac i hwyluso'i hynt drwy Whitehall ar yr amod na fyddai trafodaethau'n dechrau cyn mis Mawrth 2010. Mae'r Gweinidog wedi sicrhau'r Pwyllgor y bydd y pwerau'n cael eu trosglwyddo yn ystod oes y Cynulliad hwn. Mae rhagor o fanylion i'w gweld drwy'r linc a ganlyn:

http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-scrutiny-committees/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-inquiry/bus-committees-third-els-inquiry-lco.htm

**Darpariaeth arbenigol i bobl ifanc ag awtistiaeth mewn addysg bellach**

Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad ar ddarpariaeth arbenigol i bobl ifanc ag awtistiaeth mewn addysg bellach wedi'r Pasg. Wedi iddo gael ei gyhoeddi, bydd yr adroddiad hwn ar gael ar dudalen adroddiadau'r Pwyllgor.

Os ydych eisiau copi caled o adroddiadau'r Pwyllgor, anfonwch neges e-bost at
daniel.collier@wales.gsi.gov.uk

**Cronfeydd Strwythurol: gweithredu rhaglenni 2007-2013** – Yn ystod tymor y gwanwyn, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Bolisi Rhanbarthol a'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol dros Gyflogaeth; prosiectau sydd yn cael eu hariannu gan gyllid cydgyfeiriant; a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Yn ogystal, craffodd y Pwyllgor ar waith y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, a chlywodd dystiolaeth gan nifer o randdeiliaid allweddol. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ar ei ymchwiliad yn ystod tymor yr haf.

## Gwaith y Pwyllgor yn nhymor yr haf 2010:

**Sylwer y gall dyddiadau a phynciau'r ymchwiliadau newid wrth i flaenoriaethau ddod i'r amlwg**

**Creu swyddi yn yr economi werdd** - Bydd yr ymchwiliad hwn yn parhau yn nhymor yr haf. Mae'r Pwyllgor wedi clywed tystiolaeth gan nifer o arbenigwyr yn y maes ac wedi craffu ar waith y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai.

**Yr agenda weddnewid ar gyfer addysg ôl-16** – Cynhelir dwy sesiwn arall ym mis Ebrill, gan gynnwys cyfarfod allanol yn y Barri. Bydd y Pwyllgor yn clywed tystiolaeth gan randdeiliaid allweddol ac o bosibl yn holi'r Gweinidog eto.

**Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)** - Cynhelir tri chyfarfod ym mis Mehefin. Fel rhan o'i waith, bydd y Pwyllgor yn holi'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ac yn clywed tystiolaeth gan randdeiliaid allweddol.

**Grŵp Rapporteur ar Ddwyieithrwydd** – Ym mis Ionawr, clywodd y Grŵp Rapporteur dystiolaeth anffurfiol gan brosiect Geiriau Bach, Coleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin, ac ym mis Mawrth gan Gareth Wyn Roberts.

Yn ystod tymor yr haf, bydd y grŵp yn parhau i weithio'n anffurfiol ac yn ymweld ag unigolion a chyrff a all fod o gymorth i'r grŵp gyda'i gylch gwaith:

- Addysgu a dysgu Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion uwchradd a sut y mae'r Gymraeg wedyn yn cael ei defnyddio mewn bywyd cymdeithasol a bywyd oedolion;
- Hyfforddiant a sgiliau dwyieithrwydd yn y gweithle; a
- Rhyngwyneb busnes â'r cyhoedd.

Yn ystod tymor yr haf, bydd y grŵp yn cyflwyno adroddiad ar gyfnod cyntaf ei ymchwiliad i addysgu a dysgu Cymraeg fel ail iaith.

**Rôl y mentrau cydweithredol a chymdeithasol** - Cynhelir tri chyfarfod wedi hanner tymor. Fel rhan o'i waith, bydd y Pwyllgor yn holi'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ac yn clywed tystiolaeth gan randdeiliaid allweddol.

Cyhoeddir y Cylch Gorchwyl ar gyfer ymchwiliadau newydd maes o law, ynghyd â gwahoddiad i bobl sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig.

## Edrych ymhellach ymlaen

**Rydym eisoes yn gwybod am rai o'r materion y bydd y Pwyllgor yn craffu arnynt yn ystod tymor yr hydref 2010, ond fel bob amser, gall y blaenoriaethau newid:**

- Yr agenda Wyddoniaeth, Technoleg, yr Peirianneg a Mathemateg;
- Dysgu cymunedol i oedolion;
- Rhaglen adnewyddu'r economi; a
- Camau dilynol ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor i seilwaith rheilffyrdd Cymru yn y dyfodol.

## Sut rydym yn cynllunio ymchwiliadau

***Syniadau, dyheadau, arbenigedd a gwybodaeth Aelodau'r Cynulliad yw man cychwyn pob ymchwiliad, ac mae Aelodau'r Cynulliad yn eu tro'n defnyddio'u hetholwyr a'u cysylltiadau proffesiynol fel sail i hynny.***

Fel arfer, bydd yr Aelodau a'r swyddogion yn trafod sut i gynllunio ymchwiliadau tua unwaith y tymor, er mwyn sicrhau bod gan y Pwyllgor raglen waith dreigl a hyblyg.

Gall ymchwiliadau ddeillio o wahanol sefyllfaoedd:

- Yn aml, bydd y Pwyllgor yn penderfynu ailedrych ar ymchwiliadau penodol, wedi i gyfnod priodol fynd heibio, i weld a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu'r argymhellion hynny a gafodd eu derbyn gan y Pwyllgor. Yn yr achosion hyn, bydd yn cynnal ymchwiliad dilynol gweddol fyr.
- Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor Deisebau yn gofyn i'r pwyllgorau craffu ymchwilio i faterion sy'n codi mewn deisebau. Mae'r Pwyllgor Menter a Dysgu wedi cyflwyno adroddiad ar nifer o ddeisebau - er enghraifft, gorsaf reilffordd Carno; tanwydd a chludiant ar y ffyrdd; anghenion dysgu ychwanegol a'r ddeiseb 'Pride in Barry'.
- Gan fod Pwyllgorau'n gallu cynnig deddfwriaeth, gallant gynnal ymchwiliadau craffu cyn y broses ddeddfu er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei drafftio'n gadarn a'i bod yn diwallu anghenion yr holl randdeiliaid.
- Os yw deddfwriaeth Senedd y DU yn effeithio'n sylweddol ar Gymru, gall y Pwyllgor graffu ar Fesurau drafft Senedd y DU neu Fesurau Senedd y DU.
- Yn dilyn ymchwiliad mewn maes penodol, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn penderfynu craffu'n fanylach ar un neu ddau o'r materion a gododd. Er enghraifft, ym mis Chwefror, cyflwynodd y Pwyllgor adroddiad ar y Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon ac,

o ganlyniad, roedd yr Aelodau'n dymuno ymchwilio ymhellach i swyddogaeth llywodraethwyr ysgolion.
- Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn penderfynu bod angen defnyddio dulliau mwy anffurfiol a hyblyg o ymchwilio i fater penodol yn hytrach na chraffu ar dystiolaeth mewn gwrandawiadau ffurfiol. Os felly, gall sefydlu grŵp rapporteur o thua phedwar aelod er enghraifft, i ymgymryd â'r gwaith y tu ôl i'r llenni, gan gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor llawn. Dyna ddigwyddodd yn achos adroddiad y Pwyllgor ar ddyslecsia. Ar hyn o bryd mae gan y Pwyllgor grŵp rapporteur sy'n ystyried agweddau ar ddwyieithrwydd.
- Weithiau bydd tystion yn awgrymu materion eraill i'r Pwyllgor eu hystyried.

## Ac i gloi…

**Sylwadau os gwelwch yn dda!**

Hoffem glywed **gymaint o sylwadau â phosibl** ynglŷn â'r ddogfen hon: a oedd hi'n ddefnyddiol i chi, a oedd ei chynnwys yn berthnasol ac yn addas, ac a hoffech i ni gynnwys rhywbeth arall y tro nesaf? Anfonwch e-bost at: daniel.collier@wales.gsi.gov.uk

**Mae croeso i chi anfon y ddogfen hon neu ein manylion cysylltu at unrhyw un os credwch y byddai ganddynt ddiddordeb yng ngwaith y Pwyllgor Menter a Dysgu.**

**Y bwletin nesaf**

Ein nod yw cynhyrchu rhyw fath o gylchlythyr/bwletin o leiaf unwaith y tymor, ac anfon e-bost atoch yn amlach os bydd y Pwyllgor yn penderfynu ymgymryd â gwaith craffu brys neu'n newid ei flaenoriaethau.